



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Dewisiadau ar gyfer gweithredu Bil Anghenion
Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Dewisiadau ar gyfer gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Cynulleidfa	Ysgolion a gynhelir, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, lleoliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn anghenion dysgu ychwanegol
Trosolwg	Roedd yr ymgynghoriad hwn yn holi pobl ynghylch sut y dylid gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) os bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Mae'n canolbwyntio ar yr egwyddorion cyffredinol sy'n gysylltiedig â'i weithredu. Mae'r Bil yn creu system ddeddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc, 0 i 25 oed, sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y system newydd yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig, ac asesu plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Geraint Jones Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 03000 253624 e-bost: SENReforms@llyw.cymru
Copiau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn http://llyw.cymru/ymgyngghoriadau
Dogfennau cysylltiedig	Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – fel y'i diwygiwyd yn ystod Cam 2 (2017) <i>Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft</i> (Chwefror 2017) <i>Memorandwm Esboniadol i Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)</i> (2017) <i>Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): gweithdai ymgynghori rhanddeiliaid ar ran Llywodraeth Cymru – adroddiad cryno</i> (2017)

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyflwyniad	4
Crynodeb gweithredol	5
Canllawiau	5
Cyllid ar gyfer hyfforddiant a datblygu'r gweithlu	5
Arweinyddiaeth, cynllunio a monitro strategol	6
Methodoleg	6
Ymatebion	7
Gweithdai ymgynghori â rhanddeiliaid	7
Canrannau	8
Patrymau demograffig	8
Cwestiwn 1	9
Cwestiwn 2	12
Cwestiwn 3	15
Cwestiwn 5	19
Cwestiwn 6	20
Sylwadau eraill a wnaed	21
Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr	22
Atodiad B: Ymatebion [ddim yn y ddogfen]	

Rhagair y Gweinidog

Rwy'n falch iawn o gael cyhoeddi'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad a oedd yn gofyn i randdeiliaid am eu barn ar y ffordd orau o weithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), os caiff Gydsyniad Brenhinol.

Bydd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad hwn yn gwbl hanfodol wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer trosglwyddo i'r system ADY newydd, ac maent eisoes wedi helpu i'n rhoi ar ben ffordd. Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, rwyf wedi penderfynu ar y dull gweithredu canlynol.

Dylid cyflwyno cynlluniau datblygu unigol yn raddol, yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau cysondeb ac er mwyn rheoli'r broses. Bydd y cyfnodau trosglwyddo a awdurdodir yn seiliedig ar bwyntiau trosglwyddo allweddol, ond rhoddir blaenoriaeth i ddysgwyr sydd eisoes â Datganiadau a gaiff eu trosglwyddo o fewn dwy flynedd. Caiff pob dysgwr sydd â chynlluniau anstatudol ar hyn o bryd eu trosglwyddo o fewn tair blynedd.

Dim ond yn achos y dysgwyr hynny ag ADY sydd â chynlluniau eisoes y defnyddir y dull gweithredu hwn. Byddem yn disgwyl i unrhyw ddysgwyr y nodir bod ganddynt ADY yn ystod y cyfnod hwn, nad oedd ganddynt gynllun eisoes, gael cynlluniau datblygu unigol yn ystod y cyfnod gweithredu - ni fyddai unrhyw Ddatganiadau newydd na chynlluniau eraill yn cael eu creu ar gyfer dysgwyr ag ADY o'r pwynt hwn ymlaen.

Mewn ymateb i alwadau am ganllawiau manwl ar weithredu, byddwn yn cyhoeddi Canllaw Trosglwyddo a fydd yn cynnwys amserlenni manwl ar gyfer cyflwyno cynlluniau datblygu unigol i bob cohort o ddysgwyr a drosglwyddir yn raddol. Caiff y Canllaw Trosglwyddo ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r Arweinwyr Trawsnewid a rhanddeiliaid allweddol eraill, a chaiff ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad y flwyddyn nesaf, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r Cod drafft.

Mewn perthynas â cheisiadau am fanylion pellach am rolau penodol a gaiff eu creu gan y Bil, gan gynnwys y Cydlynnydd ADY a'r SACDA, byddwn yn parhau i gydweithio â'r grwpiau arbenigol perthnasol i ddatblygu a mireinio'r canllawiau i'w cynnwys yn y Cod. Caiff y rhain eu cyhoeddi wedyn ar gyfer ymgynghoriad i godi cymaint o ymwybyddiaeth â phosibl ac i ganiatáu i arbenigedd o'r sector gyfrannu at y canllawiau. Gallaf gadarnhau hefyd y bydd y Cod yn cynnwys templed gorfodol ar gyfer cynlluniau datblygu unigol.

Byddwn yn buddsoddi £20m i helpu i weithredu'r system newydd. Bydd ein rhaglen gefnogi yn darparu canllawiau manwl, cymorth strategol a rhaglen hyfforddiant helaeth ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY cyn dechrau gweithredu'r system.

Bydd pump o Arweinwyr Trawsnewid yn helpu i gyflwyno'r rhaglen i drawsnewid y system ADY gan ddarparu rhyngwyneb strategol rhwng partneriaid gweithredu a Llywodraeth Cymru. Yr Arweinwyr Trawsnewid fydd yn gyfrifol am gefnogi'r broses o weithredu'r system ADY yn effeithiol, gan sicrhau bod y gwaith trosglwyddo yn gyson ledled Cymru.

Darperir y cyllid grant ar gyfer gweithredu ar lefel ranbarthol, a chaiff hynny ei gydlynw gan yr Arweinwyr Trawsnewid Rhanbarthol. Bydd hyn yn cyflwyno hyfforddiant a datblygu proffesiynol amlasiantaethol, rhanbarthol ar y fframwaith deddfwriaethol newydd a'i oblygiadau i'r rheini sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi dysgwyr ag ADY. Bydd yr hyfforddiant yn targedu ymarferwyr allweddol sydd â rolau penodol yn y system newydd (gan gynnwys y Cydlynwyr ADY a swyddogion SACDA).

Eir ati i fonitro cydymffurfedd a pharodrwydd drwy drafod uniongyrchol rhwng yr Arweinwyr Trawsnewid a'r partneriaid gweithredu, fel sail i'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu rhanbarthol. Rhoddir adroddiad i Lywodraeth Cymru ar y cynnydd o ran y cynlluniau hyn, a chânt eu monitro ar lefel genedlaethol drwy Grŵp Gweithredu Strategol ADY. Rhoddir adroddiad rheolaidd i Weinidogion hefyd.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ymgynghoriad hwn. Mae eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad parhaus yn hollbwysig er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y diwygiadau iawn ac yn eu gweithredu'n iawn, a dim ond drwy gydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid y gallwn wneud hynny.

Kirsty Williams
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y dewisiadau ar gyfer gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (y Bil) ar 27 Chwefror 2017. Roedd yn cyflwyno cynigion ar sut y dylai'r Bil gael ei weithredu os bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Bil yn creu system ddeddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc 0 i 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Byddai'r system newydd yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae hefyd yn cyflwyno rolau a chysyniadau newydd i helpu i weithredu'r diwygiadau hyn yn llwyddiannus.

Bydd yn ofynnol i ysgolion a gynhelir benodi Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y rôl hon yn hwyluso'r cydweithredu amlasiantaethol effeithiol sy'n ofynnol er mwyn gwella gwasanaethau i ddysgwyr ag ADY. Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd newydd ar gyrff iechyd i benodi Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) i helpu gwasanaethau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i gydweithio'n well. A bydd y system newydd yn sicrhau mai ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fydd sail y broses gyfan, a bod pob cyfarfod i adolygu cynlluniau datblygu unigol yn canolbwyntio ar y plentyn neu'r person ifanc.

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ymatebion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/dewisiadau-ar-gyfer-gweithredu-bil-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg>

Parodd y cyfnod ymgynghori am 15 wythnos, a daeth i ben ar 9 Mehefin 2017. Mae'r rhestr o ymatebwyr wedi'i chynnwys yn Atodiad A, ac mae enwau wedi'u hatal os gofynnwyd am hynny. Mae copïau o'r ymatebion a ddaeth i law ar gael yn Atodiad B. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o safbwyntiau ymatebwyr i'r cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori.

Crynodeb gweithredol

Ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynghylch y dull newydd o gefnogi dysgwyr sydd ag ADY a gyflwynir gan y Bil. Croesawyd y syniad o un cynllun statudol yn benodol, a'i bwyslais newydd ar roi'r lle canolog i'r plentyn neu'r person ifanc ym mhob penderfyniad. Yn fwy cyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno nad yw'r system anghenion addysgol arbennig bresennol yn cyflawni ei diben bellach, ac y dylai'r diwygiadau angenrheidiol ganolbwyntio ar greu system symlach ar sail yr egwyddor y dylid cefnogi pob dysgwr i gyflawni ei botensial.

Roedd y mwyafrif helaeth yn teimlo bod angen dull graddol gorfodol cenedlaethol er mwyn i'r un grwpiau o ddysgwyr ledled Cymru gael y cynlluniau datblygu unigol newydd yn ystod yr un cyfnod. Daeth dau opsiwn i'r amlwg yr oedd pobl yn eu ffafrio: dysgwyr ar adeg drosglwyddo bwysig (boed yn symud o un lleoliad addysg i un arall, o un cyfnod allweddol i un arall, neu i ardal arall); a'r rheini sydd â chynlluniau statudol eisoes.

Roedd yna dair thema amlwg yr oedd pobl yn teimlo y dylent fod yn brif flaenoriaethau o ran cefnogaeth a buddsoddiad Llywodraeth Cymru:

Canllawiau

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am fwy o fanylion ynghylch sut y byddai'r system newydd yn gweithio, gan gynnwys dyddiadau allweddol y broses drawsnewid a'r gwahanol rolau a nodwyd yn y Bil drafft. Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i gael cyfle i roi eu sylwadau ynghylch manylion y fersiwn nesaf o'r Cod ADY, gan gynnwys rôl y Cydlynnydd ADY a'r SACDA. Galwyd hefyd am gynnwys templed cynllun datblygu unigol a dogfennau perthnasol eraill yn y Cod er mwyn hwyluso llwyddiant y system.

Cyllid ar gyfer hyfforddiant a datblygu'r gweithlu

Ystyriwyd cyllid ar gyfer y system ADY newydd yn flaenoriaeth i hwyluso'r gweithredu. Galwodd yr ymatebwyr am i'r cyllid gael ei wario'n bennaf ar weithgareddau i ddatblygu'r gweithlu er mwyn diweddarau sgiliau'r holl staff sy'n gysylltiedig ag ADY, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio mewn addysg bellach a lleoliadau addysg y blynyddoedd cynnar, y sector iechyd ac mewn awdurdodau lleol. Roedd yna alw hefyd am hyfforddiant penodol ar gyfer y Cydlynwyr ADY a'r swyddogion SACDA newydd i hwyluso'r gwaith cynllunio ac adolygu cyfarfodydd ac i helpu gyda gwaith partneriaeth amlasiantaethol. Roedd rhai hefyd o'r farn y dylid buddsoddi adnoddau ychwanegol i helpu staff presennol i weithredu'r system yn effeithiol, os bydd unrhyw gynnydd yn y llwyth gwaith.

Arweinyddiaeth, cynllunio a monitro strategol

Roedd llawer o'r sylwadau yn ymwneud â'r angen i'r diwygiadau gael eu hwyluso gan arweinyddiaeth strategol gref, ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, a thrwy ddarparu cymorth a chynghor uniongyrchol i awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, ysgolion, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a byrddau iechyd. Roedd yna alw hefyd am i gynlluniau gweithredu manwl gael eu sefydlu gan roi gwybod i bob partneriaeth berthnasol amdanynt, ac am i drefniadau monitro effeithiol gael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod y system newydd yn cael ei chyflwyno yn unol â'r disgwyl.

Methodoleg

Gofynnodd yr ymgynghoriad i gyfranogwyr am eu safbwyntiau ar nifer o gwestiynau'n ymwneud â gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau caeedig a chyfle i ymateb i gwestiynau penagored. Roedd y cwestiwn olaf yn wahoddiad agored i nodi unrhyw faterion cysylltiedig.

Ymatebion

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 89 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd 16 o ymatebion eraill ond roeddent yn anghyflawn, felly nid oedd modd eu cynnwys. Roedd rhai o'r ymatebion a ddaeth i law yn ymatebion ar y cyd a oedd yn cynrychioli safbwyntiau unigolion a sefydliadau lluosog.

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys gwybodaeth am yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ffurfiol, ar sail categori a lleoliad.

Ysgolion	16
Cydlynwyr anghenion addysgol arbennig	1
Y sector addysg bellach	7
Sefydliadau cyn ysgol	2
Gweithwyr addysg proffesiynol	3
Undebau'r athrawon	8
Llywodraeth leol	11
Sefydliadau dysgu seiliedig ar waith	1
Byrddau iechyd lleol	1
Gweithwyr iechyd proffesiynol	2
Sefydliadau sector cyhoeddus eraill	4
Sefydliadau'r trydydd sector	10
Unigolion	19
Arall	4

Cymru	71
Tu allan i Gymru	3
Heb nodi lleoliad	15

Gweithdai ymgynghori â rhanddeiliaid

Yn ogystal â gofyn am ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, aeth Llywodraeth Cymru ati i gynnal cyfres o wyth gweithdy ymgynghori mewn digwyddiadau rhanbarthol ledled Cymru rhwng 28 Chwefror a 9 Mawrth. Gofynnodd hwyluswyr y gweithdai i gyfranogwyr weithio mewn grwpiau o hyd at 12 o bobl i drafod tri chwestiwn cyntaf yr ymgynghoriad, a defnyddiwyd templed adborth safonol wedyn i grynhoi pwyntiau allweddol pob grŵp. Yn ystod sesiwn lawn, dewiswyd grwpiau i gyflwyno trosolwg cryno o'u trafodaethau i'r gynulleidfa gyfan. Roedd cyfanswm o 629 o bobl wedi cymryd rhan yn y gweithdai.

Cafodd yr ymatebion hyn eu coladu a'u cynnwys mewn adroddiad cryno wedyn, sydd wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y gweithdai lle bo hynny'n briodol, gan nodi'r themâu a'r sylwadau a oedd yn debyg neu'n wahanol i'r hyn a dderbyniwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Canrannau

Mae'r tablau yn cynnwys y canrannau ar gyfer pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad er mwyn cymharu'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad â'r adborth a gafwyd yn y gweithdai i randdeiliaid. Fodd bynnag, oherwydd nifer gymharol isel yr ymatebion (llai na chant), ni ddefnyddir canrannau yn yr adroddiad hwn.

Patrymau demograffig

Wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r cwestiynau hyn, ni nodwyd unrhyw gysylltiad rhwng grwpiau demograffig gwahanol a dewisiadau ar gyfer dull gweithredu penodol.

Cwestiwn 1

Sut y dylid mynd ati i roi'r cynlluniau datblygu unigol ar waith?

Cwestiwn 1 Sut y dylid mynd ati i roi'r cynlluniau datblygu unigol ar waith?	Ymatebion ysgrifenedig i'r ymgyngoriad	Ymatebion i'r gweithdai
1a) Cyflwyno'r cynlluniau datblygu unigol ar un dyddiad penodol	10 (11%)	99 (16%)
1b) Cyflwyno cynlluniau datblygu unigol mewn cyfnodau gorfodol	73 (82%)	521 (83%)
Dim ateb	6 (7%)	9 (1%)

Roedd cwestiwn cyntaf yr ymgynghoriad yn gofyn sut y dylid rheoli'r broses o weithredu cynlluniau datblygu unigol: p'un a ddylai awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach benderfynu ar eu dull eu hunain o reoli'r broses o addasu'r cynlluniau presennol i lunio'r cynlluniau newydd ym mha ffordd bynnag oedd fwyaf priodol yn eu barn nhw; neu p'un a ddylai fod yna ddull graddol gorfodol cenedlaethol fel bod dysgwyr ledled Cymru yn cael y cynlluniau datblygu newydd yn ystod yr un cyfnod.

Yr ail oedd dewis y rhan fwyaf o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw a'r rheini a aeth i'r gweithdai. Er bod yr ymatebwyr yn cytuno bod manteision i ganiatáu i awdurdodau lleol benderfynu ar eu dull eu hunain o reoli'r broses drosglwyddo, mynegwyd pryderon am yr anawsterau a fyddai'n deillio o hyn yn ymarferol. Roedd yna deimlad y gallai hyn arwain at annhegwch yn ystod y broses drosglwyddo gan y byddai'n 'loteri cod post' ledled Cymru, a gwahanol ardaloedd yn cynnig y cynlluniau datblygu unigol i wahanol grwpiau o ddysgwyr. Gallai hefyd fod yn anodd rheoli'r system apelau ac anghydfodau, gan y gallai hawliau mynediad i'r system newydd fod yn aneglur neu'n anghyson.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r farn mai cyflwyno'r cynlluniau datblygu unigol i bob disgybl sydd wedi cyrraedd yr un cam ledled Cymru oedd y ffordd orau o fynd ati, a hynny dan gyfarwyddyd clir Llywodraeth Cymru. Roeddent yn teimlo bod dull a gyflwynir drwy fandad ledled Cymru yn fwy teg ac yn fwy cydnaws ag ysbryd y gwaith diwygio.

Awgrymodd un y dylai Llywodraeth Cymru berchnogi'r diwygiadau, fel bod y cyfarwyddyd o ran blaenoriaethu yn dod o fan canolog. Roedd yna gefnogaeth hefyd i ddull cenedlaethol o lywio a monitro'r broses drosglwyddo, gan sicrhau bod y system newydd yn cael ei chyflwyno'n gyson ac yn effeithiol.

Yn ychwanegol at yr ymatebion a ddaeth i law o blaid yr ail opsiwn ar gyfer y cwestiwn hwn, daeth rhai themâu cyffredin i'r amlwg i gefnogi dull graddol drwy fandad.

Dewis 1b oedd yn cael ei ffafrio oherwydd ei gysondeb a'r ffaith ei fod yn haws ei reoli, a bydd angen paratoi a chynllunio'n ofalus. Galwodd y rheini a oedd yn ffafrio'r opsiwn hwn am amserlenni ar gyfer gweithredu'r system newydd, gan sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn barod ac osgoi oedi diangen. Galwodd rhai hefyd am bennu dyddiad pryd y bydd y system newydd yn gwbl weithredol. Byddai hyn yn rhoi dyddiad penodol i leoliadau addysg weithio tuag ato a sicrhau bod yr hen system AAA yn cael ei dirwyn i ben yn briodol. Dylid cynnwys amserlenni ar gyfer cerrig

milltir allweddol, er enghraifft cyflwyno hyfforddiant y gweithlu neu gyflwyno cynlluniau datblygu unigol i rai carfanau, fel rhan o'r dull gweithredu graddol a gyflwynir drwy fandad.

Er mwyn sicrhau cysondeb, a rhoi digon o amser i bartneriaid ymbaratoi, roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gyfathrebu'n glir am bob cam penodol. O ystyried cymhlethdod cyflwyno'r system ADY, a'r ffaith y gallai gwahanol elfennau'r Bil gael eu cyflwyno ar wahanol adegau, roedd y partneriaid cyflenwi yn ystyried bod cyfathrebu'n effeithiol yn hollbwysig er mwyn trosglwyddo'n ddidrafferth. Yn benodol, bydd cydweithredu amlasiantaethol yn dibynnu ar gyfathrebu agored a chysion rhwng y gweithlu a'r arweinwyr.

Cyn y gellir cyflwyno'r system newydd, gofynnodd rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi am hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r ffordd newydd o weithio. Soniwyd am hyfforddiant penodol ar y rolau newydd, fel y Cydlynnydd ADY a'r SACDA, ond hefyd hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff sy'n gysylltiedig ag ADY, er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys i bwy i gyfeirio problemau a phryd. Galwyd am hyfforddiant parhaus hefyd i sicrhau cynaliadwyedd y system newydd.

Gweithdai ymgynghori â rhanddeiliaid

Dewis 1a) Cyflwyno'r cynlluniau datblygu unigol ar un dyddiad penodol

Mewn egwyddor, byddai dull o'r fath yn golygu y byddai'r system newydd yn gymwys i bob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol gan gychwyn yn union yr un pryd. Y gyfran o bobl oedd yn cytuno â'r dewis hwn oedd 16% (n = 99).

Roedd y rhesymau a roddwyd i gefnogi'r dewis hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr angen i roi eglurder i'r holl rhanddeiliaid, er mwyn osgoi cael dwy system yn gweithredu ar yr un pryd a sicrhau bod dull gweithredu ar waith sy'n deg i bob dysgwr. Hefyd gallai cael un dyddiad cyflwyno wneud cydweithio a gweithio trawsffiniol rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn symlach.

Roedd y rhesymau a roddwyd dros wrthod y dewis hwn yn adlewyrchu pryderon y cyfranogwyr ynglŷn â llwyth gwaith ac ymarferoldeb ymdrin â'r broses weithredu, yn arbennig ar gyfer y cydlynnydd ADY. Teimlai llawer bod goblygiadau creu cynlluniau datblygu unigol ar gyfer pob dysgwr sydd ag ADY o fewn yr un cyfnod amser yn anymarferol, yn enwedig mewn lleoliadau â nifer fawr o ddysgwyr o'r fath. Roedd rhesymau eraill dros wrthod y dewis hwn yn canolbwyntio ar yr effaith niweidiol bosibl y gallai brysio i weithredu ei chael ar ansawdd y broses a hyder ymarferwyr yn y system newydd.

Dewis 1b. Cyflwyno cynlluniau datblygu unigol mewn cyfnodau gorfodol

Y gyfran o bobl oedd yn cytuno â'r dewis hwn oedd 83% (n = 521).

Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn cytuno bod angen dull cenedlaethol ar gyfer gweithredu cynlluniau datblygu unigol, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws lleoliadau ac awdurdodau lleol, ac i fod yn deg a chyfiawn i bob dysgwr. Byddai dull gweithredu fel hyn yn rhoi mwy o amser i ymarferwyr ddatblygu cynlluniau datblygu unigol statudol gan ddefnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, am y tro cyntaf mewn rhai achosion.

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr o blaid cyfnod pontio wedi'i ddiffinio'n glir, h.y. cytuno ar gyfnod ar gyfer newid Datganiadau a chynlluniau presennol a dyddiad cwblhau penodol ar gyfer sicrhau bod gan bob dysgwr ADY cymwys gynllun datblygu unigol ar waith. Roedd yr amserlen a awgrymwyd i'w weithredu'n amrywio'n sylweddol o 12 mis, sef blwyddyn academiaidd gan amlaf, hyd at bum mlynedd. Teimlwyd bod cyflwyno fesul cam fel hyn yn fwy hylaw ac fel pe bai'n adlewyrchu'r cyfeiriad teithio presennol o ran cyflwyno cynlluniau datblygu unigol mewn llawer o'r lleoliadau oedd wedi eu cynrychioli yn y gweithdai. Roedd yr adborth yn dangos y bydd yn hanfodol cael canllawiau diamwys ynghylch pa garfan(au) o ddysgwyr y dylid eu blaenoriaethu.

Cwestiwn 2

Os dylid cyflwyno cynlluniau datblygu unigol gam wrth gam, sut y gellid eu rhannu yn ôl *tranche*?

Cwestiwn 2 Os dylid cyflwyno cynlluniau datblygu unigol gam wrth gam, sut y gellid eu rhannu yn ôl <i>tranche</i> ?		Ymatebion i'r gweithdai (trefn dewisiadau)
2a) Cynlluniau statudol presennol	29 (1af)	2
2b) Lleoliad addysg	5 (5ed)	4
2c) Cyfnodau allweddol	9 (4ydd)	3
2d) Cyfnodau pontio arwyddocaol	21 (2il)	1
2e) Awdurdodau lleol yn 'mabwysiadu'n gynnar'	3 (6ed)	5
2f) Dim un o'r uchod	11 (3ydd)	7

Yn dilyn y cwestiynau cyntaf, cyflwynwyd pum ffordd bosibl o ddosbarthu cyflwyniad cynlluniau datblygu unigol, ynghyd ag opsiwn i ddewis "dim un o'r opsiynau hyn". Roedd yr opsiynau yn adlewyrchu'r ffyrdd gwahanol y gellid grwpio dysgwyr yn garfanau gan ddefnyddio categorïau neu ddiffiniadau sydd gennym eisoes.

Y ddau ddewis mwyaf poblogaidd o bell ffordd oedd 2a a 2d. Cynlluniau statudol presennol gafodd y gefnogaeth fwyaf yn yr ymgynghoriad ysgrifenedig, a chyfnodau pontio arwyddocaol gafodd y gefnogaeth fwyaf wedyn. Tybid mai'r ddau ddewis hyn oedd y dull mwyaf teg ac ymarferol o weddnewid i'r system newydd.

Dewisodd rhai Opsiwn 2a er mwyn blaenoriaethu'r dysgwyr hynny y mae eu hanghenion eisoes wedi'u nodi, i osgoi amharu ar y rheini sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth neu sydd fwyaf agored i niwed, megis plant sy'n derbyn gofal. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb o ran cefnogaeth a darpariaeth. Hefyd, byddai'r opsiwn hwn yn ffordd well o gefnogi'r rheini sy'n gymwys i gael gofal a chefnogaeth o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Byddai sicrhau bod y system yn gweithio ar gyfer grŵp llai yn gyntaf, gan gynnwys y defnydd o grŵp asiantaethau, yn help i'w chyflwyno ymhellach ac adeiladu ar arferion gorau a dysg a rennir.

Roedd y gefnogaeth i Opsiwn D yn seiliedig ar degwch. Byddai grwpio dysgwyr ar sail oedran yn hytrach nag angen yn sicrhau bod y diwygiadau yn digwydd yn gyflymach, a bod dysgwyr ag anghenion llai cymhleth yn cael yr un statws â'r rheini sydd â Datganiad eisoes. Byddai dewis y rheini fel cyfnodau pontio arwyddocaol yn darparu amserlenni clir i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Gallai hefyd arwain at gyfarwyddo ysgolion i ymgysylltu â'u partneriaid, megis lleoliadau addysg bellach, i hwyluso'r broses bontio. Cefnogwyd yr opsiwn hwn hefyd gan y gallai helpu'r broses

o drosglwyddo o leoliadau gofal plant i ysgolion prif ffrwd, sy'n gysylltiedig â'r ffocws ar nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar.

Awgrymodd un y gellid cyfuno'r ddau opsiwn hwn fel mai'r garfan gyntaf i drosglwyddo fyddai dysgwyr sydd â chynlluniau statudol sy'n dod i ben, sydd hefyd wedi cyrraedd cyfnod pontio. Awgrymodd eraill symud disgyblion i'r system newydd wrth adolygu'r Datganiadau presennol, y gellid hefyd ei wneud mewn ffordd sy'n cyfuno'r ddau opsiwn a ffeirir.

Yn ogystal â'r ymatebion a ddaeth i law o blaid Opsiwn 2a ac Opsiwn 2d, daeth themâu cyffredin i'r amlwg hefyd mewn perthynas â chyflwyno cynlluniau datblygu unigol.

Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, ac fel y cydnabuwyd gan lawer o'r ymatebwyr, mae cyfnodau pontio eisoes yn adeg sy'n achosi llawer o straen i ddysgwyr ifanc. Roedd yna deimlad cyffredinol y dylid gwneud mwy i sicrhau pontio effeithiol yn y cyfnodau allweddol hyn o ran cyflwyno'r system ADY. Cydnabuwyd bod parchu egwyddor dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ffordd bositif o hwyluso'r broses drosglwyddo. Awgrymodd rhai y byddai dechrau'r broses y flwyddyn cyn mynd i leoliad addysg newydd o fudd. Roedd gan rai ymatebwyr bryderon am gyfnodau pontio i addysg bellach, a mynegodd rhai bryderon penodol yn ymwneud â phobl ifanc yn eu harddegau yn cael eu trin fel oedolion wrth iddynt bontio i wasanaethau oedolion.

Cytunwyd yn gyffredinol mai gorau po gyntaf y caiff ADY eu hadnabod, gan fod ymyrryd yn gynnar yn llawer mwy effeithiol a chost-effeithiol nag ymyrryd yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mae llawer yn dibynnu ar sicrhau bod lleoliadau blynyddoedd cynnar yn barod ar gyfer y system ADY newydd. Galwodd rhai ymatebwyr, felly, am ganolbwyntio'n fwy ar y cyfnod pontio cynnar hwn er mwyn i'r system allu datblygu o'r gwaelod i fyny, gan gefnogi'r plentyn wrth iddo fynd o un lleoliad addysg i'r llall.

Er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o gynlluniau datblygu unigol, yn enwedig wrth bontio i leoliadau addysg newydd, cododd rhai'r angen i wella cydweithredu amlasiantaethol. Bydd llawer o agweddau ar y Bil yn gofyn am gyfathrebu cryf rhwng unigolion allweddol, ac roedd rhai ymatebwyr am i Lywodraeth Cymru arwain partneriaid cyflenwi i weithio mewn partneriaeth yn well. Mae hyn yn cynnwys cydweithio agosach â gwahanol leoliadau addysg, cyrff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd llawer o'r sylwadau o blaid penodi cydlynwyr ADY a SACDA i roi cyngor, cefnogaeth a her wrth bontio, ac roeddent yn croesawu'r cam i wella'r trefniadau gwaith. Fodd bynnag, roedd eraill o'r farn bod angen gwneud mwy, yn benodol cefnogi'r rheini dros 18 oed, rhywbeth yr oedd rhai yn ei ystyried yn gyfyngedig ac yn anghyson.

Gweithdai ymgynghori â rhanddeiliaid

Fel gyda'r ymgynghoriad, y ddau ddewis mwyaf poblogaidd ymysg cyfranogwyr y gweithdai oedd 2a (cynlluniau statudol presennol) a 2d (cyfnodau pontio arwyddocaol).

Y dewis mwyaf poblogaidd ar gyfer cyflwyno cam wrth gam oedd dewis 2d) *'Cyfnodau pontio arwyddocaol'* rhwng lleoliadau, cyfnodau allweddol neu awdurdodau lleol. Roedd y rhesymau a roddwyd dros gyfiawnhau'r dewis hwn yn canolbwyntio ar ddarparu digon o amser i feithrin gallu mewn lleoliadau, ymarferoldeb rheoli'r broses a phryderon ynghylch llwyth gwaith cydlynwyr ADY. Roedd yr adborth yn awgrymu y byddai canolbwyntio ar drosi cynlluniau presennol nifer gyfyngedig o ddysgwyr mewn cyfnodau pontio allweddol yn caniatáu i amser ac adnoddau gael eu targedu'n well, gan alluogi ysgolion i ddatblygu arbenigedd gyda charfanau unigol o ddysgwyr fel rhan o gynllunio pontio effeithiol. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo hefyd y dylai'r dull hwn gynnwys plant 0-3 oed mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Yr ail ddewis mwyaf poblogaidd ar gyfer cyflwyniad cam wrth gam oedd 2a) *'Cynlluniau statudol presennol'*, gan ddechrau gyda'r dysgwyr hynny sydd â chynlluniau statudol ac anstatudol eisoes cyn ymestyn hawliau o'r fath i gohort newydd. Y farn gyffredinol oedd y dylid rhoi blaenoriaeth i ddysgwyr sydd â'r lefel uchaf o angen. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn opsiwn ymarferol gan fod y rhain yn cynrychioli nifer lawer llai o ddysgwyr sydd eisoes wedi'u nodi a'u hanghenion wedi'u diffinio. Dylai gweithio amlasiantaeth fod wedi'i hen sefydlu ar gyfer y dysgwyr hyn. Ystyriwyd y byddai dull o'r fath yn decach gan nad yw wedi'i gyfyngu i ddysgwyr mewn cyfnod allweddol neu leoliad penodol, byddai'n cysylltu â chylchoedd adolygu presennol a gallai leddfu pryderon rhieni ynghylch colli Datganiadau.

Pa bynnag opsiwn a ddewiswyd, teimlai'r grwpiau y dylai'r dull ganolbwyntio ar y dysgwr, a bod cyllid a chefnogaeth ddigonol ar gyfer gweithredu cynlluniau datblygu unigol yn hanfodol bwysig. Roedd mwyafrif y grwpiau'n cytuno ei bod hi'n angenrheidiol cael dyddiad terfyn ar gyfer gorffen cyflwyno cynlluniau datblygu unigol yn genedlaethol er mwyn osgoi cael dwy system yn rhedeg ar yr un pryd am gyfnod estynedig.

Cwestiwn 3

Beth yw eich barn am y blaenoriaethau o ran sicrhau cymorth gan Lywodraeth Cymru i bartneriaid darparu wrth iddynt baratoi i drosglwyddo i'r system newydd?

Y prif gymorth y gofynnwyd amdano oedd amser, arian ac adnoddau digonol. Roedd angen amser ac arian i hyfforddi'r gweithlu ac ymgyswyo â'r system newydd, a galwyd am adnoddau ychwanegol i fodloni'r cynnydd posibl yn y galw. Mae recriwtio staff i ymwneud ag ADY a'u cadw yn her, a chydabyddir mai recriwtio a chadw arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg sydd anoddaf. Heb gynnydd yn y gyllideb ac amser ymgyswyo rhesymol, mae'n bryder gwirioneddol i lawer y bydd y system newydd yn wynebu gormod o lwyth gwaith ac na fydd llawer o blant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, cyn belled â bod y cymorth priodol ar gael, gan gynnwys hyfforddiant penodol a chyfathrebu gwell rhwng asiantaethau a lleoliadau, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn hyderus y byddai'r system newydd yn well o lawer na'r system bresennol.

Un o'r prif themâu eraill yn yr ymateb i'r cwestiwn hwn oedd hyfforddiant. Codwyd mater uwchsgilio ymarferwyr blynyddoedd cynnar gan fod adnabod anghenion dysgwyr yn gynnar yn un o gonglfeini'r rhaglen i drawsnewid y system ADY. Roedd eraill yn credu bod hyfforddiant ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc 16 oed a throsodd sydd ag ADY yn bwysig.

Nodwyd yr angen i greu pecyn E-ddysgu ar gyfer hyfforddiant penodol (fel cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn), a'r angen i ddiwygio Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i gynnwys y dulliau newydd hyn o gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Yn benodol, codwyd cwestiwn hyfforddiant ar gyfer cyfarfodydd cynlluniau datblygu unigol, gan ddefnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer rolau'r cydlynnydd ADY a'r SACDA.

Nodwyd bod cysylltiad agos rhwng hyfforddiant a'r cyllid sydd ei angen i wella sgiliau'r gweithlu presennol a hyfforddi staff newydd. Roedd yn bryder i rai na fyddai'r gronfa bontio £20m yn mynd yn ddigon pell, ac y dylai cyllid ar gyfer hyfforddiant fod yn barhaus.

Roedd rhai am i gyllidebau ADY gael eu clustnodi, ac roedd eraill eisiau gweld cronfa ganolog yn cael ei sefydlu i ariannu ADY yn deg. Hefyd, gofynnodd rhai ymatebwyr am gyllid i godi ymwybyddiaeth o'r system newydd ymhlith plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys y llwybrau i ddatrys anghydfodau.

Un o themâu cyffredin yr ymatebion oedd galwad i ddatblygu gallu'r gweithlu presennol neu i'w wneud yn fwy effeithlon drwy sicrhau bod digon o amser yn cael ei dreulio ar y rheng flaen, yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r dysgwyr ag ADY. Roedd llawer yn teimlo bod y system bresennol o dan bwysau, yn bennaf oherwydd pryder bod diffyg adnoddau ar gyfer rhai rolau arbenigol. Yn benodol, mynegwyd pryderon ynglŷn â nifer y seicolegwyr addysg a'r therapyddion lleferydd ac iaith. Mynegwyd mwy o bryderon yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, gyda rhai yn cyfeirio at ddiffyg adnoddau diagnostig Cymraeg a phrinder staff ac arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg mewn rhai meysydd.

Roedd pryder arall yn ymwneud â gallu awdurdodau lleol i reoli'r system newydd a bodloni'r gofynion gweinyddol ac arweinyddiaeth. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y gallai cyfarfodydd amlasiantaethol a dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fynd yn anos i'w trefnu i ddechrau, ac y gallai hyn gynyddu llwyth gwaith ysgolion, a bod angen ystyried hyn wrth gynllunio.

Yn olaf, roedd rhai'n teimlo y gallai natur statudol cynlluniau datblygu unigol arwain at gynyddu gwaith papur a biwrocratiaeth oherwydd goblygiadau posibl peidio â bodloni darpariaethau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r system newydd yn llai biwrocraidd ac yn arwain at lai o wrthdaro, ac roeddent yn falch y byddai gan bob cynllun datblygu unigol yr un statws cyfreithiol â Datganiadau AAA.

Galwyd am dempled ar gyfer cynllun datblygu unigol yn y rhan hon o'r ymgynghoriad. Yn yr un modd, gwnaed cais am ganllawiau clir ynglŷn â'r amgylchiadau pan fydd awdurdod lleol yn gyfrifol am gynlluniau datblygu unigol, ac roedd yna bryder y gallai dirprwyo gormod o gyfrifoldeb olygu na fydd gan awdurdodau lleol adnoddau digonol i ymdrin â chynlluniau datblygu unigol cymhleth. Roedd rhai ymatebwyr eisiau gwybod â phwy y byddai cydlynwyr ADY yn cysylltu am gymorth ychwanegol pe byddai angen, a phryd yn y broses y dylai hyn ddigwydd. Mae eraill wedi gofyn am fwy o fanylion ynghylch y broses o drosglwyddo unigolion o wasanaethau iechyd plant i wasanaethau iechyd oedolion, ac am eglurder ynghylch rôl y maes iechyd o ran drafftio cynlluniau datblygu unigol.

Awgrymodd un ymatebydd y gellid defnyddio 'Hyrwyddwyr Newid', yn debyg i'r rhai sy'n cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Hefyd, holwyd am gyllid uniongyrchol ar gyfer cydlynwyr ADY ac ymrwymiad na fydd gan gydlynwyr ADY ddyletswyddau addysgu, a gofynnodd rhai am ddarparu cyllid grant ar gyfer holl gefnogwyr strategol ADY.

Yn olaf, awgrymwyd y dylid monitro canlyniadau'r diwygiadau er mwyn sicrhau bod y system yn effeithiol a bod modd sicrhau gwelliannau wrth symud ymlaen.

Gweithdai ymgynghori â rhanddeiliaid

Yn ystod y gweithdai, gofynnwyd i'r grwpiau ystyried eu blaenoriaethau ar gyfer helpu i weithredu'r Bil yn llwyddiannus.

Roedd y prif ystyriaethau ar gyfer datblygu'r gweithlu yn cynnwys archwilio'r gweithlu presennol er mwyn nodi anghenion datblygiad proffesiynol ym mhob sector, teilwra hyfforddiant (gan gynnwys pecyn hyfforddiant e-ddysgu) i alinio ag anghenion lleoliadau a sectorau gwahanol, a sicrhau bod asiantaethau'n cydweithio wrth ddarparu cyfleusterau hyfforddiant. Awgrymwyd y dylid darparu hyfforddiant ar y cyd gyda chyfranogiad amlasiantaethol.

Croesawyd y cyllid grant a chynigiwyd awgrymiadau gwahanol ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid. Awgrymodd rhai y gellid ei ddefnyddio i alluogi awdurdodau lleol i gynllunio mewn ffordd strategol a blaenoriaethu anghenion hyfforddiant. Dylai cyflwyno a lledaenu gwybodaeth am y Bil a'r Cod newydd fod yn

flaenoriaeth hefyd. Cyfeiriwyd at hyfforddiant unwaith eto yn y cyswllt hwn, gyda rhanddeiliaid yn gofyn am hyfforddiant penodol ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer pawb sy'n gweithio ym maes ADY. Roedd eraill eisiau datblygu darpariaeth arbenigol, darparu eiriolaeth a recriwtio staff ychwanegol i helpu i gyflwyno cynlluniau datblygu unigol.

Roedd croeso i arweinwyr trawsnewid y system ADY a rôl y SACDA, ond roedd y sylwadau'n seiliedig yn bennaf ar yr angen am fwy o wybodaeth ac eglurder ynglŷn â'r rolau hyn. Hefyd, awgrymodd y grwpiau fod angen treialu'r rolau gan fod pryderon ynglŷn â dichonoldeb un person yn cyflawni'r rôl yn effeithiol yn ymarferol.

Yn olaf, cyfeiriwyd at amrywiaeth o anghenion cymorth eraill yn ystod sesiynau'r gweithdai. Roedd codi ymwybyddiaeth yn thema allweddol, yn enwedig o safbwynt sicrhau rhieni a gofawyr na fyddai Datganiadau statudol yn cael eu dileu ar ôl cyflwyno'r system newydd. Roedd canllawiau diarnwys yn y Cod ac arweinyddiaeth glir gan Lywodraeth Cymru yn thema arall, ac roedd ymatebwyr am i'r Cod nodi'r rhwymedigaethau a'r paramedrau cyfreithiol ar gyfer cydweithio er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson a graddol yn cael ei fabwysiadu. Hefyd, gellid sicrhau cysondeb wrth gyflwyno'r system drwy gyflwyno templedi cynlluniau datblygu unigol electronig safonol, a dylid eu cynnwys yn y Cod hefyd.

Cwestiwn 4

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai gweithredu'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
- ii) trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Pa effeithiau fyddai yna yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Ni wnaeth bron i chwarter yr ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn; fodd bynnag, roedd y sylwadau a ddaeth i law yn adlewyrchu ystod amrywiol o farn.

Er nad oedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg, roedd pryderon gan rai, yng ngoleuni'r cynnydd tebygol yn y galw am wasanaethau yn y Gymraeg (yn unol â strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr), ynghyd â'r lefelau staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd, y gallai'r system newydd effeithio'n negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y system ADY. Heb fynd i'r afael â'r pryderon hyn, roedd posibilrwydd na fyddai unrhyw welliant yn ymwneud â darpariaeth Gymraeg, a gellid dadlau y byddai'r galw am wasanaethau yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Y prif bryder a fynegwyd o ran y Gymraeg oedd capasiti'r gweithlu, a'r ofn bod arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg eisoes dan straen. Nodwyd y gallai eu rolau fod yn anghynaliadwy heb gefnogaeth ychwanegol. Cydnabuwyd mor anodd yw recriwtio staff arbenigol cymwys sy'n siarad Cymraeg, a galwyd am gyflogi mwy o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig seicolegwyr addysgol.

Roedd eraill o'r farn y byddai'r cynnydd posibl yn y galw yn datblygu'r capasiti ac yn cymell awdurdodau lleol i recriwtio mwy o arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg, neu i wella sgiliau a hyfforddi staff presennol i ymdopi â'r cynnydd posibl.

Nodwyd cyfyngiadau eraill o safbwynt y Gymraeg, gan gynnwys argaeledd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer ADY, a diffyg argaeledd offer diagnostig neu asesu Cymraeg.

Roedd rhai'n awgrymu cefnogi gweithredu'r system ADY trwy gynnwys;

- archwiliad o'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol;
- banc canolog ar gyfer adnoddau iaith Gymraeg a gwasanaethau cyfieithu;
- Hyrwyddwyr Dwyieithog i gefnogi polisïau iaith Gymraeg.

Cwestiwn 5

Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion ar gyfer gweithredu'r Bil er mwyn cael:

- i) effeithiau cadarnhaol neu mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Hepgorwyd y cwestiwn hwn gan oddeutu hanner ein hymatebwyr. O'r ymatebion a ddaeth i law, roedd llawer o'r farn na fyddai fawr ddim effaith ar y defnydd o'r Gymraeg. Roedd eraill yn cynnig y safbwyntiau canlynol.

Roedd rhai o'r farn y byddai plant ag ADY yn cael trafferth gyda dwy iaith mewn ysgol Gymraeg, gan gredu y gallai ymagwedd anhyblyg at ddwyieithrwydd atal rhai dysgwyr ag ADY rhag cyrraedd eu potensial. Fodd bynnag, roedd eraill yn ymwrthod â hyn drwy ddweud bod y gallu i siarad Cymraeg yn gaffaeliad i bob dysgwr ac yn bwysig tu hwnt i lawer o deuluoedd sy'n siarad Cymraeg sydd â phlant ag ADY.

Dylai dogfennau dwyieithog fod ar gael o gychwyn cyntaf y system newydd. Hefyd, canllawiau clir ar sut i bennu iaith y ddarpariaeth, efallai gan ddefnyddio'r egwyddor *cynnig gweithredol* ar gyfer penderfynu dewis iaith.

Roedd eraill yn galw am hyfforddiant cydraddoldeb i staff yn gyffredinol, neu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff ADY. Cafodd technoleg ddigidol a'r defnydd o apiau eu crybwyll hefyd i helpu gyda'r ddarpariaeth Gymraeg. Roedd yna alw hefyd i ymestyn menter *Sgiliaith* Llywodraeth Cymru yn y gweithlu.

O ran y Gymraeg yn y Bil, dywedodd rhai nad oedd "ymdrech orau" yn ddigon cryf, a dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod arbenigedd iaith Gymraeg ym mhob awdurdod lleol.

Cwestiwn 6

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt.

Cyllid oedd y thema fwyaf cyffredin a godwyd yn yr adran hon. Yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol parhaus ar gyllidebau cynghorau ac ysgolion, roedd llawer o bobl yn pryderu bod yr adnoddau presennol wedi'u hystyngi yn barod, ac y gallai gweithredu'r system ADY newydd gynyddu pwysau ymhellach ar y gweithlu.

Mae rhai pryderon penodol ynghylch cyllid ac adnoddau'n cynnwys sut y bydd ysgolion bach yn gallu fforddio cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol nad yw'n addysgu, ac a fydd unrhyw arian ychwanegol ar gael ar gyfer hyfforddiant neu ar gyfer y cynnydd canfyddedig mewn dyletswyddau gweinyddol. Eto, roedd rhai ymatebwyr yn galw am i'r gyllideb ADY gael ei neilltuo i sicrhau cyllid teg ledled Cymru, tra bod eraill yn gofyn sut y gellir mynd i'r afael ag amrywiadau mewn cyllid rhanbarthol ar gyfer ADY.

Gofynnwyd eto a fyddai yna dempled Cynllun Datblygu Unigol, gydag un ymatebwr yn gofyn am feini prawf penodol ar gyfer pennu 'ADY cymhleth' neu'r meini prawf ar gyfer disgyblion sy'n cael eu lleoli mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau).

Gofynnwyd am gefnogaeth i staff sy'n gweithio gydag ADY, gydag awgrymiadau ar gyfer tîm o gefnogwyr strategol ADY i ddarparu cyngor, cefnogaeth a her yn ystod y cyfnod pontio. Awgrym arall oedd cyhoeddi'r holl gefnogaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag ADY mewn un lle cyfleus.

Codwyd cwestiwn ynghylch cymwysterau ar gyfer cydlynwyr ADY, ac roedd galw am gytuno ar safon o hyfforddiant. Pryder arall sy'n gysylltiedig â chydlynwyr ADY oedd cyfraniad y Gwasanaeth Gyrfaoedd at y sector ôl-16, a sut y mae hyn yn bryder parhaus i rai sy'n gweithio yn y sector addysg bellach.

Roedd galw am fwy o wybodaeth am y blynyddoedd cynnar, plant sy'n derbyn gofal a lleoliadau addysg bellach. Un awgrym ar gyfer y blynyddoedd cynnar oedd cyflogi swyddog ADY dynodedig gyda swyddogaeth i weithredu fel cyswllt â chydlynnydd ADY yr awdurdod lleol. Nodwyd bod cysylltiadau â lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant yn sicrhau adnabod ADY yn gynnar a phroses bontio lyfnach hefyd ar gyfer plant pan fyddant yn symud i addysg llawn amser.

Yn olaf, codwyd ychydig o bryderon ynghylch y Tribiwnlys Addysg. Mae posibilrwydd y byddai yna gynnydd mewn achosion Tribiwnlys, o ystyried y cynnydd mewn cynlluniau statudol. Efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol ar hyn, gan y bydd cynnydd mewn achosion sy'n gallu mynd i'r Tribiwnlys. Codwyd y berthynas rhwng ieuchyd ac addysg a'r pwerau sydd gan y Tribiwnlys dros sefydliadau ieuchyd hefyd.

Sylwadau eraill a wnaed

Drwy gydol yr ymgynghoriad, gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ychwanegol nas nodwyd ym mhrif themâu'r adroddiad hwn.

Roedd yn bryder i rai ymatebwyr, gan gynnwys Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, y byddai nifer yr achosion sy'n mynd i'r Tribiwnlys Addysg yn cynyddu yn y tymor byr pe bai cynlluniau datblygu unigol yn cael eu cyflwyno heb ddigon o amser i ymbaratoi a chael hyfforddiant ar y system newydd. O ystyried y cynnydd yn y cynlluniau statudol (a chynnydd felly yn y rheini a allai wneud apêl), roedd yna bryder y gallai nifer yr apelwyr gynyddu yn y tymor hirach; rhaid i'r system fod yn gadarn er mwyn osgoi, lle bo modd, gyfeirio achosion i'r broses apelio, ac er mwyn iddi allu delio ag unrhyw lwyth gwaith ychwanegol sy'n codi.

Yn gysylltiedig â hynny, bydd yn rhaid i'r Tribiwnlys Addysg weithredu dwy system ddeddfwriaethol ochr yn ochr â'i gilydd yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Er bod hyn yn anochel, gan fod yn rhaid cael cyfnod lle mae'r ddwy system yn cydreddeg, dylid cadw'r cyfnod trosglwyddo mor fyr â phosibl er mwyn lleihau'r cymhlethdod i'r rheini sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddod ag achos i'r Tribiwnlys, ac i'r Tribiwnlys a'i staff.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr eisiau canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru, ac roedd llawer yn gofyn am God diwygiedig. Gofynnwyd am ganllawiau ar bob math o faterion, o fwy o fanylion ar rolau newydd y cydlynedd ADY a'r SACDA i amserlenni manwl ar gyfer symud i system cynlluniau datblygu unigol. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd am sicrhau bod systemau yn cael eu sefydlu mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gefnogi'r Cydlynwyr ADY a'r swyddogion SACDA i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

Yn fwy penodol, gofynnodd llawer am i demptedi cynlluniau datblygu unigol gael eu cynnwys yn y Cod ADY diwygiedig. Gwnaed cais hefyd am ganllawiau ar lenwi cynlluniau datblygu unigol, gan gynnwys sut byddai ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gweithio. Byddai hyn yn sicrhau dull cyson o gwblhau a chynnal y cynlluniau, gan sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu a'u datblygu ar raddfa genedlaethol.

Yn olaf, cyfrannodd nifer o elusennau at un ymateb i'r ymgynghoriad i dynnu sylw at anghenion gofal iechyd mewn lleoliadau addysg. Codwyd y pwynt bod Datganiadau AAA, o dan y system bresennol, yn cael eu rhoi weithiau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd fel ffordd o sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth mewn lleoliadau addysg; hyd yn oed os nad oes ganddynt ADY. Gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch a fydd y grŵp hwn o ddysgwyr yn cael cynlluniau datblygu unigol, fel yr awgrymir yn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, neu a fyddant yn cael cynllun gofal iechyd unigol o dan ganllawiau statudol Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd. Holwyd hefyd ynghylch statws cyfreithiol cymharol y ddau gynllun, a mynegwyd pryder ynghylch a oes gan gynllun gofal iechyd unigol yr un statws â'r cynllun datblygu unigol, o ran materion fel penderfyniadau apelio.

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr

Rhif	Enw	Sefydliad
1	Colin Jones	Ysgol Gynradd Kitchener
2	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
3	Denise Inger	SNAP Cymru
4	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
5	Sue Ainsworth	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
6	Phil Higginson	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
7	Richard J Cubie	Gwasanaeth Gwella ac Effeithiolrwydd Ysgolion Gogledd Cymru
8	Sarah McCarty	Gofal Cymdeithasol Cymru
9	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
10	Karen Parry	Awdurdod Lleol Wreccsam
11	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
12	Kelly Robinson	British Academy of Childhood Disability
13	Huw Davies	Estyn
14	Owen Hathway	Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru
15	Julian Hallett	Cymdeithas Syndrom Down
16	Claire Protheroe	PACEY Cymru
17	Alison Rees Edwards	Ysgol y Blynyddoedd Cynnar, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
18	Kate Fallon	Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg
19	Gavin Metherringham	Awdurdod Lleol Blaenau Gwent
20	Sally Holland	Comisiynydd Plant Cymru
21	Sue Price	Coleg Cambria
22	Sophie Davies	Gweithgor Cydlynwyr AAA (ymateb ar y cyd)
23	Tim Pratt	Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
24	Hayden Llewellyn	Cyngor y Gweithlu Addysg
25	Rachel Bowen	Colegau Cymru
26	Rob Williams	Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (Cymru)
27	Sian Thompson	Coleg Sir Benfro
28	Rachel Lane	Ysgol Gyfun Treorci (y pennaeth a'r cydlynnydd ADY)
29	Lorraine Young	Awdurdod Lleol Ceredigion
30	Mary van den Heuvel	Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru
31	Sarah Capstick	Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

32	Sarah Ellis	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
33	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
34	Nicholas Davies	Amherthnasol
35	Sara Moran	Grŵp o sefydliadau (cyflyrau meddygol hirdymor) ¹
36	Kirsten Jones	Natspec (Cymru)
37	Humie Webbe	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
38	amherthnasol	Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr
39	Lee Hitchings	Penaethiaid Uwchradd Nedd Afan
40	Mark Sheridan	Dinas a Sir Abertawe
41	R.E. Walker	Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
42	Rosie Raison	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
43	Ele Hicks	Diverse Cymru
44	Rex Phillips	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau Cymru
45	Carys Moseley	Dathlu'r Gymraeg
46	Ian Toone	Voice Cymru
47	Ceri Jones	Mynediad a Chynhwysiant, Rhondda Cynon Taf
48	Darrell Clarke	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
49	Rhian Nowell-Phillips	RNIB Cymru
50	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
51	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
52	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
53	Clare Jones	Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Rhondda Cynon Taf
54	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
55	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
56	Pippa Ford	Ymgynghorydd
57	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
58	Richard Thomas	amherthnasol
59	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
60	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
61	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	

¹ Diabetes UK, Allergy UK, Ymgyrch Anaffylaxis, Gofal Arthritis, Cymdeithas Ddeieteg Prydain Cymru, Rhwydwaith Diabetes Cymru, Coeliac UK, Crohn's & Colitis UK, Epilepsy Action, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru, Young Epilepsy.

62	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
63	Nicky Wilson	Ysgol Gynradd
64	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
65	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
66	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
67	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
68	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
69	Gabrielle Klefenz	Llywodraeth Cymru
70	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
71	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
72	Sian Lewis	Rhiant
73	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
74	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
75	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
76	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
77	Mr R W Ebley	Amherthnasol
78	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
79	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
80	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
81	Louise Keevil	Coleg Derwen
82	Sarah Hoss	Amherthnasol
83	Kerri Thomas	Ysgol Uwchradd Afon Taf
84	Claire Bridges	Awdurdod Lleol Caerdydd (Gwaith achos AAA)
85	Dr Caroline Walters	Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
86	Katrina Reed	Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan
87	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
88	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	

89	Gofynnodd yr ymatebydd am gael bod yn ddienw	
----	---	--